

BA (Anrh) Cynllunio ar gyfer Perfformio

Ceisiadau Drwy: UCAS
Cod Sefydliad: R86
Cod Cwrs: W460

Mae'r trosolwg hwn o'r cwrs yn rhoi crynodeb o'r rhaglen BA (Anrh) Cynllunio ar gyfer Perfformio fel y'i cynigir o fis Medi 2019. A fyddech cystal â nodi er bod y wybodaeth yn adlewyrchu'r rhaglen a gynigir ar hyn o bryd, gall gael ei haddasu a'i newid mewn blynyddoedd i ddod. Ymgynghorir bob amser â myfyrwyr ynglŷn â newidiadau o'r fath a bydd manylion ar gael i ymgeiswyr sydd â chynigion. Mae pob blwyddyn o'r cwrs yn werth 120 credyd. Er mwyn symud drwy bob blwyddyn bydd yn rhaid i'r myfyrwyr lwyddo ym mhob modiwl.

Blwyddyn 1	Blwyddyn 2	Blwyddyn 3
Astudiaethau Hanesyddol a Chyd-destunol 20 credyd	Astudiaethau Hanesyddol a Chyd-destunol 20 credyd	Astudiaethau Hanesyddol a Chyd-destunol 20 credyd
Sgiliau Technegol 20 credyd	Sgiliau Technegol 20 credyd	Astudiaeth Arbenigol 20 credyd
Sylfeini Cynllunio Set 20 credyd	Sgiliau Arbenigol 20 credyd	Cynyrchiadau 20 credyd
Sylfeini Cynllunio Gwisgoedd 20 credyd	Cynyrchiadau 60 credyd	Arfer y Diwydiant ac Arddangosfa Derfynol 60 credyd
Prosiect Grŵp 20 credyd		
Prosiect Cynllunio Unigol 1 10 credyd		
Prosiect Cynllunio Unigol 2 10 credyd		

Blwyddyn Un

Astudiaethau Hanesyddol a Chyd-destunol

Credydau: 20

Asesiad: Seminar Grŵp (30%), Asesiad Ysgrifenedig (70%)

Cyflwynir y myfyrwyr i fethodoleg ymchwil sy'n uniongyrchol berthnasol i'w prif feysydd astudiaeth. Drwy gyfres o ddarlithoedd, seminarau ac astudiaeth annibynnol, cyflwynir y myfyrwyr i fframwaith cronolegol rhai o ddatblygiadau hanesyddol a chyd-destunol sylfaenol yn ymwneud â hanes y Theatr a Pherfformio, Celf, Pensaernïaeth a Gwisgoedd. Gyda chefnogaeth tiwtorial, bydd y myfyrwyr yn rhoi cyflwyniad o ymchwil cysylltiedig ar ffurf seminar grŵp a thraethawd 2,500 gair. Drwy gydol Blwyddyn Un bydd myfyrwyr yn casglu cofnod o'u cynnydd yn eu Proffil Datblygiad Proffesiynol (PDP).

Sgiliau Technegol

Credydau: 20

Asesiad: Llwyddo/Methu

Drwy'r modiwl hwn cyflwynir y myfyrwyr i'r prosesau technegol sy'n ymwneud â chynllunio a gwireddu cynllun. Yn ystod y sesiynau hyn a gynhelir yn bennaf yn y stiwdio neu'r gweithdy cyflwynir a datblygir gywbodaeth a sgiliau drwy gyfres o ddarlithoedd arddangos a phrosiectau ymarferol. Gan gefnogi

gwaith prosiect drwy gydol Blwyddyn Un, mae'r modiwl hwn yn cyflwyno elfennau sylfaenol gwneud modelau, arlunio technegol, paentio golygfeydd a chreu gwisgoedd, ac mae'n rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar y myfyrwyr i gefnogi'r broses cynllunio.

Sylfeini Cynllunio Set

Credydau: 20

Asesiad: Gwaith Prosiect Unigol (100%)

Bydd myfyrwyr yn cael cyflwyniad wedi'i strwythuro i brosesau theori a phroffesiynol yn ymwneud â chynllunio set ar gyfer theatr. Mae elfennau'r modiwl hwn yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar y myfyrwyr i symud i'r modiwlau seiliedig ar brosiect a chynhyrchiad. Yn ystod y sesiynau hyn a gynhelir yn bennaf yn y stiwdio cyflwynir, datblygir ac asesir gwybodaeth a theori sgiliau cynllunio cysyniadol drwy gyfres o ddarlithoedd arddangos, dosbarthiadau meistr, ymweliadau addysgiadol a phrosiectau ymarferol. Y tu hwnt i'r theori a'r sgiliau cysylltiedig â chynllunio ar gyfer y theatr, mae'r modiwl hwn yn cyflwyno'r myfyrwyr i'r prosesau sy'n gysylltiedig â phob cynllun dilynol. Mae'n fodiwl hollbwysig mewn gosod y sylfeini ar gyfer ymchwil a chynllunio, a'r prosesau o drosglwyddo ymchwil drwy ddatblygiad cynllun ymarferol i gynlluniau gorffenedig.

Sylfeini Cynllunio Gwisgoedd

Credydau: 20

Asesiad: Gwaith Prosiect Unigol (100%)

Bydd myfyrwyr yn cael cyflwyniad wedi'i strwythuro i brosesau theori a phroffesiynol yn ymwneud â chynllunio gwisgoedd a gwireddu cynllun gwisgoedd ar gyfer perfformiad. Mae elfennau'r modiwl hwn yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sylfaenol sydd eu hangen ar y myfyrwyr i symud i'r modiwlau seiliedig ar brosiect a chynhyrchiad. Yn ystod y sesiynau hyn a gynhelir yn bennaf yn y stiwdio cyflwynir, datblygir ac asesir gwybodaeth a sgiliau theori cynllunio drwy gyfres o ddarlithoedd arddangos, dosbarthiadau meistr, ymweliadau addysgiadol a phrosiectau ymarferol.

Prosiect Cynllunio Unigol 1

Credydau: 10

Asesiad: Datblygiad Ymchwil (75%), Cynllun Terfynol (25%)

Drwy'r modiwl hwn bydd myfyrwyr yn gallu cymhwyso'r sgiliau a gaffaelwyd drwy'r modiwl Astudiaethau Technegol ac egwyddorion cynllunio a gaffaelwyd drwy'r modiwl Sylfeini Cynllunio ar gyfer prosiect cynllunio unigol cysyniadol, gan weithio gyda thiwtor yn cymryd rôl cyfarwyddwr, e.e. cynllunio set a gwisgoedd ar gyfer testun clasurol mewn lleoliad a osodir iddynt.

- Astudio testun perthnasol
- Ymchwil a datblygu cynllun
- Adeiladu bocs model i raddfa 1:25 o'r lleoliad a osodir
- Cynllun model i raddfa wedi'i gwblhau ar gyfer set
- Brasluniau o gynlluniau gwisgoedd

Bydd y pwyslais ar allu'r myfyriwr i ymateb i gyfres o ddyddiadau terfyn a thiworialau gosodedig, sy'n cynrychioli proses weithio'r cyfarwyddwr/cynllunydd.

Prosiect Cynllunio Unigol 2

Credydau: 10

Asesiad: Datblygiad Ymchwil a Ffolio Cynllunio (100%)

Mae'r modiwl hwn yn rhoi'r cyfle i'r myfyriwr gymhwyso'r sgiliau a gaffaelwyd drwy'r modiwl Astudiaethau Technegol ac egwyddorion cynllunio a gaffaelwyd drwy'r Sylfeini Cynllunio ar gyfer prosiect hyblyg a fydd wedi'i greu i fod yn addas i ddeinameg y grŵp.

Bydd y myfyrwyr yn gweithio'n unigol o fewn grŵp llai i lunio cynigion ar gyfer datblygu cymeriad a pherfformiad ar gyfer testun a lleoliad a gomisiynwyd yn arbennig. Mae'r prosiect yn cynnwys modelau pyped datblygiadol ac archwiliad o dechnegau pypedwaith ac yn gorffen gyda chyflwyniad portffolio.

Prosiect Grŵp

Credydau: 20

Asesiad: Datblygiad Ymchwil a Chynllun (50%), Cyflwyniad Grŵp (50%)

Drwy'r model hwn bydd y myfyrwyr yn gallu cymhwysu'r sgiliau a gaffaelwyd drwy'r modiwl Astudiaethau Technegol ac egwyddorion cynllunio a gaffaelwyd drwy'r modiwl Sylfeini Cynllunio Gwisgoedd ar gyfer prosiect cynllunio grŵp. Mewn ymateb i ddarn o destun, cerddoriaeth neu gelf a roddir iddynt a gyda chefnogaeth tiwtorial bydd y myfyriwr yn gweithio fel rhan o dîm i greu cymeriadau er mwyn perfformio sioe ffasiynau.

Caiff y myfyrwyr hefyd eu cyflwyno i waith ar y cyd gyda myfyrwyr o ddisgyblaeth gysylltiedig: Rheoli Llwyfan.

Blwyddyn Dau

Astudiaethau Hanesyddol a Chyd-destunol

Credydau: 20

Asesiad: Seminar (25%), Asesiadau Ysgrifenedig (50%), Datganiad o Fwriad (Llwyddo/Methu)

Yn dilyn ymlaen o Flwyddyn Un drwy gyfres o ddarlithoedd ar Theatr, Perfformio, Celf a Phensaernïaeth diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain, bwriedir i'r modwl hwn ddatblygu dulliau ymchwilio'r myfyrwyr a chyflwyno datblygiadau cyd-destunol a theori penodol yn y maes astudiaeth hwn. Bydd pob cyfres o ddarlithoedd yn cyflwyno dadansoddiad manwl o'r pwnc a'i gefndir cymdeithasol a hanesyddol a gyda chefnogaeth tiwtorial ac astudiaeth annibynnol bydd y myfyriwr yn cynhyrchu seminar a thraethawd yn ymwneud â maes astudio.

Hefyd, bydd pob myfyriwr yn llunio adroddiad myfyriol ar eu profiad ym Mlwyddyn Un a'u dyheadau ar gyfer Blwyddyn Dau. Bydd hwn yn ffurfio craidd y PDP.

Bydd datganiad o fwriad pan gwblheir Blwyddyn Dau yn rhoi sail ar gyfer llwybrau ymchwil wedi'u trafod i barhau drwy Flwyddyn Tri.

Sgiliau Technegol

Credydau: 20

Asesiad: Llwyddo/Methu

Mae'r modiwl hwn yn rhoi i'r myfyrwyr brosesau technegol uwch yn ymwneud â'u maes astudiaeth ac yn rhoi cyfle i fireinio ymhellach sgiliau astudio allweddol. Yn ystod y sesiynau hyn a gynhelir yn bennaf yn y stiwdio a'r gweithdy, datblygir a mireinir gwybodaeth a sgiliau drwy gyfres o ddarlithoedd arddangos a gweithdai ymarferol. Mae'r modiwl yn cyflwyno uwch sgiliau yn ymwneud â maes astudiaeth arbenigol y myfyriwr, creu modelau, arlunio technegol, cynllunio gyda chymorth cyfrifiaduwr, gwneud propiau, paentio golygfeydd neu dorri a chreu gwisgoedd.

Fel cefnogaeth barhaus i sgiliau'r myfyrwyr, caiff Llyfrau Braslunio myfyrwyr eu creu ac fe'u hasesir ar ddiwedd pob tymor. Bydd y Llyfrau Braslunio yn ategiad gweledol i'r PDP.

Astudiaeth Arbenigol

Credydau: 20

Asesiad: Aseiniadau Ymarferol (100%)

Bydd myfyrwyr yn gallu datblygu a mireinio ymhellach sgiliau astudio allweddol a gaffaelwyd ym Mlwyddyn Un. Bydd y cynnwys yn amrywio fel ei fod yn addas ar gyfer angen yr unigolyn, ond yn y bôn bydd y myfyriwr yn cael dewis rhwng astudiaethau arbenigol mewn sgiliau set neu sgiliau gwisgoedd, er enghraifft:

- Ail-greu Gwisgoedd
- Cynllunio ar gyfer Opera
- Cynllunio ar gyfer Gofodau a Ganfuwyd (Gelwir hyn y Prosiect Ysgrifennu Newydd neu Ysgrifennu:Cynllunio)
- Prosiect Theatr Stiwdio

Cynyrchiadau

Credydau: 60

Asesiad: Dawn mewn Perthynas â Maes Arbenigol (25%), Defnydd Effeithiol o Sgiliau Ymarferol a Chreadigol (25%), Agwedd wrth Gyfranogi mewn Gwaith Tîm (25%), Cynnyrch Terfynol (25%)

Gan ddilyn ymlaen o Flwyddyn Un, mae'r modiwl hwn yn rhoi'r cyfle i'r myfyrwyr gymhwyso'r sgiliau a ddysgwyd ganddynt yng nghyd-destun gwaith creadigol ymarferol. Fel aelod o dîm ar gynyrchiadau'r Coleg, neu ar leoliad proffesiynol sydd wedi'i drafod, bydd myfyrwyr yn gweithio mewn rolau sy'n berthnasol i'w maes astudiaeth arbenigol gyda chefnogaeth tiwtorial gan oruchwyliwr berthnasol i'w maes astudiaeth e.e. cymorth cynllunio / celf golygfaol / gwneud propiau / creu gwisgoedd / gwneud hetiau.

Gellir cyfnewid un o'r prosiectau/cynyrchiadau hyn fel rhan o Raglen Gyfnewid Ryngwladol.

Blwyddyn Tri

Astudiaethau Hanesyddol a Chyd-destunol

Credydau: 20

Asesiad: Adroddiad Myfyriol (20%), Estynedig (80%)

Gan ddatblygu ar sgiliau a ddysgwyd yn y ddwy flynedd flaenorol, bwriedir i'r modiwl hwn alluogi myfyrwyr i barhau i adeiladu ar eu cyfleusterau myfyriol, dadansoddol a beirniadol drwy nifer o dasgau a osodir, gan ddefnyddio amrywiaeth o d dulliau cyflwyno.

Ar ddechrau Blwyddyn Tri bydd y myfyrwyr yn cyflwyno adroddiad myfyriol dadansoddol a fydd yn adolygu profiadau Blwyddyn Dau a dyheadau ar gyfer Blwyddyn Tri.

Gyda chefnogaeth tiwtorial, cyflwynir prosiect ymchwil mawr mewn camau penodol, gan arwain y myfyriwr drwy'r gwaith o gynhyrchu corff sylweddol o ymchwil.

Astudiaeth Arbenigol

Credydau: 20

Asesiad: Aseiniadau Ymarferol (100%)

Bydd myfyrwyr yn gallu dewis prosiect ymarferol sy'n addas i'w maes astudiaeth arbenigol. Bydd y prosiect wedi'i gynllunio gan y myfyriwr, gyda'r myfyriwr yn gweithio i friff a drafodwyd gyda chefnogaeth tiwtorial.

Cynyrchiadau

Credydau: 20

Asesiad: Dawn mewn Perthynas â Maes Arbenigol (25%), Defnydd Effeithiol o Sgiliau Ymarferol a Chreadigol (25%), Agwedd wrth Gyfranogi mewn Gwaith Tîm (25%), Cynnyrch Terfynol (25%)

Mae'r modiwl hwn yn rhoi'r cyfle i'r myfyrwyr gymhwyso'r sgiliau a gaffaelwyd yng nghyd-destun gwaith creadigol ymarferol fel uwch aelod o dîm ar gynyrchiadau'r Coleg, gan weithio mewn rolau sy'n berthnasol i'w maes astudiaeth arbenigol gyda chefnogaeth tiwtorial.

Arfer y Diwydiant ac Arddangosfa Derfynol

Credydau: 60

Asesiad: Arddangosfa (100%)

Bydd myfyrwyr yn cyflwyno arddangosfa o gasgliad o'u gwaith prosiect ac ymarferol a goladwyd ac a fireiniwyd dros eu tair blynedd. Yn y broses o ddethol a chyflwyno eu gwaith rhoddir cyfle pellach i'r myfyrwyr arddangos sgiliau gwerthusol ac esthetig ac i arddangos eu gwaith i gyflogwyr y dyfodol.

Caiff myfyrwyr hefyd gyflwyniad i rai o'r arferion hanfodol ar gyfer mynd i'r afael â bywyd a gwaith yn y parth proffesiynol yn eu maes astudiaeth dewisol drwy gyfres o weithdai grŵp, darlithoedd a thiwtorialau yn ymwneud â llunio curriculum vitae, gohebiaeth fusnes, cyflwyno portffolio a chyflwyniad i gyfrifyddu/cadw llyfrau. Bydd y rhain yn ffurfio camau terfynol y PDP.